**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MAP/ARD/2000/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

21 Mehefin 2017

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Mai ynglŷn â gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Waith Ieuenctid yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi ei adroddiad.

Fel y gwyddoch, rwyf wedi ymrwymo i adolygu Ymestyn Hawliau, y cyfarwyddyd a'r arweiniad statudol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Margaret Jervis MBE i baratoi dogfen ymgynghori ar gyfer yr hydref. Mae Margaret wrthi'n cyfarfod ag amrywiaeth o randdeiliaid i helpu i lywio'r gwaith o lunio'r ddogfen hon. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ddogfen Ymestyn Hawliau newydd yn ystod haf 2018. Ar ôl cyhoeddi Ymestyn Hawliau bydd fy swyddogion yn dechrau ar y broses o ymgynghori ar Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol newydd. Felly, ni fydd Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol newydd ar waith cyn lansio Ymestyn Hawliau. Mae copi o gynllun adolygu a gweithredu'r strategaeth gwaith ieuenctid isod.

Ar 9 Mawrth, dyfarnwyd contract gennym i Brifysgol Glyndŵr i gynnal adolygiad o effaith ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol. Rydym yn disgwyl ei hadroddiad terfynol ym mis Gorffennaf. Rwy'n awyddus i ganfyddiadau'r adroddiad hwn gefnogi'r adolygiad o Ymestyn Hawliau a'r gwaith o ddatblygu'r ddogfen ymgynghori, a chredaf fod hyn yn hanfodol. Rwy'n deall bod rhanddeiliaid wedi gallu ymateb i'r adolygiad drwy fynychu grŵp ffocws neu drwy ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein a oedd yn agored am 4 wythnos.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael rhagor o gyfleoedd i gael dweud eu dweud, pan fyddwn yn ymgynghori'n ffurfiol ar Ymestyn Hawliau yn ddiweddarach eleni ac unwaith eto ar y Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol newydd. Rwyf wedi atodi copi o'n cynllun gweithredu ar gyfer adolygu a gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydych wedi gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am faint o awdurdodau lleol sydd wedi cynnal asesiadau digonolrwydd ac a wyf yn fodlon bod y rhain wedi arwain at drosolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael i bobl ifanc. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau digonolrwydd ond ymchwilir i hyn fel rhan o'r adolygiad o Ymestyn Hawliau. Yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol o Ymestyn Hawliau byddaf yn penderfynu a ddylem gynnal asesiadau digonolrwydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd ar gyfer y gwasanaethau ieuenctid statudol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio'r adnoddau yn y ffordd orau er mwyn diwallu eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol, gan gynnwys eu darpariaeth gwaith ieuenctid. Bydd y ddogfen Ymestyn Hawliau newydd yn rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid, gan gynnwys gwaith ieuenctid, gan roi mwy o eglurder iddynt.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n adolygu ein grantiau gwaith ieuenctid ychwanegol yn allanol, gan gynnwys y cynllun grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, a disgwylir i'r holl werthusiadau gael eu cwblhau yn ystod yr haf. Bryd hynny byddaf yn ystyried ein hopsiynau ac yna'n cyhoeddi fy mhenderfyniad, a fydd yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol. Rwy'n gwbl ymwybodol o'r amserlenni ar gyfer y rhai sy'n derbyn grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol ar hyn o bryd, gan gynnwys yr angen i gael gwybod am unrhyw benderfyniadau cyllido erbyn 31 Rhagfyr.

Yn ddiweddar mae fy swyddogion wedi cwrdd â'r Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, lle y rhannwyd gwybodaeth yn ymwneud â'r holl adolygiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd a sut y maent i gyd yn cysylltu â'i gilydd. Ym mis Gorffennaf byddaf yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r Clybiau Bechgyn a Merched ac Youth Cymru i glywed am fanteision y grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol a'r adnoddau ychwanegol y mae wedi eu denu i Gymru. Byddaf hefyd yn cwrdd â'r Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid.

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod hon yn adeg dyngedfennol i waith ieuenctid lle mae gennym gyfle i gymryd cam yn ôl ac ystyried yr holl opsiynau'n ymwneud ag: ariannu, canllawiau statudol, digonolrwydd, rôl y bwrdd cenedlaethol newydd, strategaeth gwaith ieuenctid newydd a, sut rydym yn cefnogi'r sector gwaith ieuenctid i weithio gyda'i gilydd. Gallaf eich sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull strategol.

Rydych hefyd wedi gofyn beth yw ystyr 'cymorth ieuenctid' a sut mae hyn yn berthnasol i waith ieuenctid. Mae Ymestyn Hawliau (2002) yn rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad i Awdurdodau Lleol, yn ymwneud ag adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000), ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid. Caiff Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ei ddiffinio fel gwasanaethau a fydd yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc 11 i 25 oed i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant; manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth; neu gymryd rhan yn effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau. Mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at Wasanaethau Cymorth Ieuenctid.

Mae fy swyddogion wrthi'n dilyn ein gweithdrefnau Penodiadau Cyhoeddus er mwyn penodi Cadeirydd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Cenedlaethol newydd. Ar ôl penodi Cadeirydd, byddwn wedyn yn mynd ati i benodi aelodau eraill o'r bwrdd. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Byddaf felly yn ymchwilio i sut y gallwn weithio gyda'r Senedd Ieuenctid newydd a Plant yng Nghymru.

Rwyf hefyd wedi atodi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ymwneud â'ch argymhellion.

Yn gywir,

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

**Cynllun ar gyfer adolygu a gweithredu**
**Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (2014-18)**

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi gwahoddiad i gynnig dyfynbris am adolygu effaith Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru 2014-18 | 3 Chwef 2017 |
| Dyddiad cau ar gyfer tendrau | 3 Mawrth 2017 |
| Dyfarnu'r contract | 9 Mawrth 2017 |
| Cyflwyniad i Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid | 23 Mehefin 2017 |
| Adroddiad dwyieithog terfynol a Chrynodeb Gweithredol | Haf 2017 |
| Adroddiad i fwydo i mewn i'r papur ymgynghori ar y ddogfen Ymestyn Hawliau ddrafft | Haf 2017 |
| Nodi unrhyw sylwadau'n ymwneud â gwaith ieuenctid sy'n codi o'r ymgynghoriad ar Ymestyn Hawliau | Gaeaf 2017 |
| Gweithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid i ddechrau drafftio strategaeth gwaith ieuenctid newydd | Gaeaf 2017 - Gwanwyn 2018 |
| Ymgynghori'n ffurfiol ar Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd | Haf / Hydref 2018 |
| Cyhoeddi Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd | Gwanwyn 2019 |

**Diweddariad chwe misol ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuenctid**

**Mehefin 2017**

---

Derbyniwyd argymhelliad 4 mewn egwyddor.

Argymhellodd y Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

Dylai'r Gweinidog gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n cwmpasu darpariaeth statudol a gwirfoddol. Dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Mae angen i unrhyw ystyriaeth o fodel newydd ar gyfer gwaith ieuenctid gael ei lywio gan yr adolygiad o ymestyn Hawliau a'r adolygiad o'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol.

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar Ymestyn Hawliau yn cael ei gynnal yn yr hydref. Bydd adborth o'r ymgynghoriad hwn yn llywio cyfeiriad y cyfarwyddyd a'r canllawiau newydd ar gyfer Ymestyn Hawliau a fydd yn cael eu lansio'n ffurfiol yn haf 2018.

Mae adolygiad o'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol presennol yn wrthi'n cael ei gynnal gan Brifysgol Glyndŵr. Bydd yr adolygiad hwn yn sail i'r papur ymgynghori ar Ymestyn Hawliau. Bydd proses ymgynghori ffurfiol ar gyfer Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol newydd yn cael ei chynnal ar ôl cyhoeddi Ymestyn Hawliau. Bydd y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu strategaeth gwaith ieuenctid newydd.

Rydym wedi dechrau'r broses o sefydlu Bwrdd Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Cenedlaethol, wedi'i gadeirio'n annibynnol. Bydd y Bwrdd yn gallu herio a chraffu'n adeiladol ar bolisïau a chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, gan gynnwys gwaith ieuenctid. Bydd y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi drwy broses Penodiadau Cyhoeddus. Rwy'n disgwyl i'r Cadeirydd fod wedi'i benodi erbyn yr hydref. Bydd y Cadeirydd wedyn yn fy nghefnogi i benodi holl aelodau eraill y bwrdd erbyn gwanwyn 2018.

Derbyniwyd argymhellion 5, 6 a 7 mewn egwyddor

Argymhellodd y Pwyllgor yr hyn a ganlyn:

5) Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar sut y mae'n bwriadu asesu i ba raddau y mae ei ymrwymiad

i ddarpariaeth ddwyieithog mynediad agored, cyffredinol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cael ei gyflawni.

6) O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog gomisiynu ymarfer i fapio darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol ledled Cymru. Dylid adnewyddu'r ymarfer o bryd i'w gilydd.

7) Dylai'r Gweinidog sicrhau bod asesiadau o ddigonolrwydd gwaith ieuenctid yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol fel rhan o'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Mae fy swyddogion wedi dechrau ymchwilio i ganfod a allai asesiadau digonolrwydd fod yn gyfrwng addas a'r ffordd orau i gynorthwyo awdurdodau lleol i fapio a datblygu eu gwaith ieuenctid lleol. Rydym yn bwriadu cynnwys ystyried asesiadau digonolrwydd yn yr ymgynghoriad ffurfiol ar Ymestyn Hawliau. Bydd hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed.

Rwy'n credu y gallai asesiadau digonolrwydd sicrhau gwell dealltwriaeth, ar lefel leol, o'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid yn y sector statudol a gwirfoddol ar lawr gwlad. Nid wyf yn credu mai dull mapio cenedlaethol yw'r ffordd orau ymlaen. Rwy'n fodlon adrodd yn ôl i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.